broes ddethol yn dal i fod tua 40 y cant mewn pleidiau â chwota cenedlaethol (a hyd yn oed yn is mewn pleidiau â chwota gwirfoddol), mae cyfran y menywod a ddewisir pan fydd sefydliadau unigol a lleol yn cymryd rhan yn uwch ac yn fwy o gwmpas y canolrif nag mewn pleidiau heb gwotâu.

**Y peth pwysig i'w gymryd o'r ffigur hwn yw bod y berthynas rhwng lefel y blaidd sy'n ymwneud â dethol a menywod ar restrau pleidiau yn amodol iawn ar reolau hybu rhywedd fel cwotâu.**



Ffigur 5.3: Yr uned sy'n dethol neu'n penderfynu ar ymgeiswyr posibl

Cwotâu sy'n cael yr effaith fwyaf ar lefelau dethol mwy datganoledig, sy'n ategu canfyddiadau **Aldrich (2020)** ac yn awgrymu bod cwotâu yn fwyaf dylanwadol mewn pleidiau mwy datganoledig a democrataidd. O ran y math mwyaf cyffredin o ddethol, mae lluosogrwydd pleidiau yn cynnwys arweinwyr cenedlaethol neu aelodau unigol.

Mae pleidiau yng Nghymru yn defnyddio amrywiaeth o weithdrefnau i ddethol ymgeiswyr yn y pen draw. Er bod gan rai pleidiau reolau ffurfiol yn eu cyfansoddiad sy'n gymwys i bob cylch etholiadol, mae eraill wedi cynnal yr hyblygrwydd i newid y weithdrefn i ddiwallu anghenion eu pleidiau ar draws etholiadau. Ar draws y pleidiau, mae'n arferol cynnwys unedau datganoledig mewn rhyw ffordd, fel arfer gyda phleidlais gan aelodau etholaeth i ddewis ymgeiswyr ar ôl cyhoeddi rhestr o



ymgeiswyr cymeradwy. Caniateir i ymgeiswyr eiriol drostynt eu hunain ar y pwynt hwn, ond mae cyfyngiadau ar faint y gall rhywun ei wario ar drywydd cael eu dethol, sy'n cael eu pennu gan y pleidiau eu hunain. Mae deiliaid sy'n dymuno aros yn eu rolau fel arfer yn cael eu rhoi ar y rhestrau byr yn awtomatig ar gyfer y cam dethol hwn. Yn ei hanfod, mae darpariaethau sy'n hybu rhywedd fel rhestrau byr menywod yn unig a rheolau ynghylch gosod menywod yn gweithredu fel cwotâu gwirfoddol hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu henwi felly.

### **Rhoi fetó ar ymgeiswyr**

Mae caniatáu fetó ar gyfer unrhyw uned o'r blaid yn golygu y gall dynnu ymgeisydd oddi ar restr. Prin iawn yw'r pleidiau yn ein data sydd wedi rhoi pŵer fetó ffurfiol yn eu statudau neu gyfansoddiadau. Os ydynt, mae'r pŵer hwn yn tueddu i gael ei freinio yn un o sefydliadau cenedlaethol y blaid (ar y cyd neu arweinyddiaeth). Mae patrymau yn y data yn dangos bod cynrychiolaeth menywod yn y pleidiau hyn yn adlewyrchu'r patrymau a archwilir uchod ac nid oes angen eu harchwilio yma. Gellir dod o hyd i'r diagram blwch-ablewyn ar gyfer y cam hwn yn Ffigur A.1 yn yr atodiad. Mae mwy o fetos yn bodoli pan ddefnyddir cwotâu, yn ôl pob tebyg i ganiatáu i bwyllgorau gwaith pleidiau ac unedau eraill wrthod rhestrau nad ydynt yn cyrraedd y safon bresennol.

**Adroddodd pleidiau yng Nghymru eu bod wedi breinio pŵer fetó yn y pwyllgor gwaith cenedlaethol ond roeddent yn awgrymu mai anaml y caiff ei ddefnyddio. Pan gaiff ei ddefnyddio, mae fel arfer mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro cyfreithiol, gwrthdaro moesol, neu wrthdaro ymhlith ymgeiswyr. Fodd bynnag, eglurodd pob plaid yn bendant mai prin iawn yw hyn. Mae'n ymddangos eu bod yn arfer mwy o bŵer dros osod ymgeiswyr ar draws rhestrau neu gyfyngu ar restrau byr cyn dethol i un rhywedd yn erbyn dileu ymgeiswyr ar ôl iddynt gael eu dethol.**

## **6. Casgliad**

Mae pleidiau gwleidyddol mewn democratiaethau seneddol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddethol ymgeiswyr ac mae pob un wedi'i archwilio yma gan ddefnyddio'r Gronfa Ddata Pleidiau Gwleidyddol (Scarrows, Webb a Poguntke, 2017). Mae'r data hyn wedi rhoi'r deunydd darllen ar ddethol ymgeiswyr a rhywedd yn ei gyd-destun. Mae'n dangos nad oes un dull sy'n rhoi mantais neu anfantais i fenywod, er y gall dulliau mwy datganoledig greu mwy o amrywiaeth yn nifer y menywod sy'n cael eu dethol ar restrau heb ddefnyddio cwotâu rhywedd. Caiff tynged menywod ar restrau etholiadol ei benderfynu drwy gyfuniad o gyflenwad a galw am ymgeiswyr benywaidd mewn pleidiau. Ar yr ochr gyflenwi, bydd recriwtio menywod bob amser yn anoddach na recriwtio dynion, ac mae hyn yn wir yng Nghymru fel y mae ledled y byd. Gall dulliau recriwtio sy'n lleihau rhwystrau ymarferol rhag mynediad (sgrinio) a rhoi gwybodaeth i fenywod am eu tebygolrwydd o lwyddo (awgrymu a chynnig) helpu i liniaru'r gwahaniaethau hyn. Mae mecanweithiau i sicrhau presenoldeb a gosodiad menywod (fel cwotâu) yn gweithio

drwy greu terfyn isaf yng nghyfran y menywod ar restrau. Gwelir y bwlch mwyaf yn y gyfran hon rhwng pleidiau â chwota a phleidiau di-gwota ar draws pleidiau sy'n defnyddio proses ddethol gan aelodau unigol. O gymharu â'r cyd-destun byd-eang, mae'r gweithdrefnau dethol ymgeiswyr presennol a ddefnyddir ym mhleidiau gwleidyddol Cymru yn creu cyfleoedd i ymgeiswyr benywaidd, ond nid ydynt o reidrwydd yn eu gwarantu heb awydd i hyrwyddo menywod ar y rhestrau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gref bod y pleidiau hyn mewn safle da i ddyrchafu menywod, a bod ganddynt brofiad o ddyrchafu menywod, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## 7. Llyfryddiaeth

Aldrich, Andrea S. 2018. "National Political Parties and Career Paths to the European Parliament." *JCMS: The Journal of Common Market Studies* 56(6):1283–1304.

Aldrich, Andrea S. 2020. "Party Organization and Gender in European Elections." *Party Politics* 26(5):675–688.

Aldrich, Andrea S. a William T. Daniel. 2019. "The Consequences of Quotas: Assessing the Effect of Varied Gender Quotas on Legislator Experience in the European Parliament." *Politics & Gender* pp. 1–30.

Aldrich, Andrea S a William T Daniel. 2025. *Quotas as Game Changers for the Recruitment, Selection, and Performance of Elected Politicians*. In Press Oxford University Press.

Aldrich, Andrea S a Zeynep Somer-Topcu. 2024. *Glass Ceilings, Glass Cliffs, and Quicksands: Gendered Party Leadership in Parliamentary Systems*. Under Contract with Cambridge University Elements in Gender and Politics Series.

Bagues, Manuel a Pamela Campa. 2021. "Can Gender Quotas in Candidate Lists Empower Women? Evidence from a Regression Discontinuity Design." *Journal of Public Economics* 194:104315.

Baskaran, Thushyanthan a Zohal Hessami. 2018. "Does the Election of a Female Leader Clear the Way for More Women in Politics?" *American Economic Journal: Economic Policy* 10(3):95–121.

Bjarnegård, Elin a Pär Zetterberg. 2019. "Political parties, formal selection criteria, and gendered parliamentary representation." *Party Politics* 25(3):325–335.

Borz, Gabriela a Kenneth Janda. 2020. "Contemporary Trends in Party Organization: Revisiting Intra-Party Democracy." *Party Politics* 26(1):3–8.

- Campbell, Rosie. 2016. "Representing Women Voters: The Role of the Gender Gap and the Response of Political Parties." *Party Politics* 22(5):587–597.
- Campbell, Rosie a Sarah Childs. 2017. *The (M)Otherhood Trap: Reconsidering Sex, Gender, and Legislative Recruitment*. Vancouver, Canada: UBC Press.
- Childs, Sarah L a Miki Caul Kittilson. 2016. "Feminizing Political Parties: Women's Party Member Organizations within European Parliamentary Parties." *Party Politics* 22(5):598–608.
- Conover, Pamela Johnston a Virginia Gray. 1983. "Feminism and the new right: Conflict over the American family.".
- Cross, William. 2008. "Democratic Norms and Party Candidate Selection Taking Contextual Factors into Account." *Party Politics* 14(5):596–619.
- De Paola, Maria, Vincenzo Scoppa a Rosetta Lombardo. 2010. "Can Gender Quotas Break down Negative Stereotypes? Evidence from Changes in Electoral Rules." *Journal of Public Economics* 94(5):344–353.
- Dolan, Kathleen A. 2014. *When does gender matter?: Women candidates and gender stereotypes in American elections*. Oxford University Press, USA.
- Fox, Richard L a Jennifer L Lawless. 2011. "Gendered perceptions and political candidacies: A central barrier to women's equality in electoral politics." *American Journal of Political Science* 55(1):59–73.
- Fox, Richard L a Jennifer L Lawless. 2014. "Uncovering the origins of the gender gap in political ambition." *American Political Science Review* 108(3):499–519.
- Fridkin, Kim L. a Patrick J. Kenney. 2014. "How the Gender of U.S. Senators Influences People's Understanding and Engagement in Politics." *The Journal of Politics* 76(4):1017–1031.
- Fulton, Sarah A. 2012. "Running Backwards and in High Heels: The Gendered Quality Gap and Incumbent Electoral Success." *Political Research Quarterly* 65(2):303–314.
- Håkansson, Sandra. 2021. "Do Women Pay a Higher Price for Power? Gender Bias in Political Violence in Sweden." *The Journal of Politics* 83(2):515–531.
- Hazan, Reuven Y a Gideon Rahat. 2006. "The Influence of Candidate Selection Methods on Legislatures and Legislators: Theoretical Propositions, Methodological Suggestions and Empirical Evidence." *The Journal of Legislative Studies* 12(3-4):366–385.



- Htun, M.N ac M. P. Jones. 2002. Engendering the Right to Participate in Decision-Making: Electoral Quotas and Women's Leadership in Latin America. Yn *Gender and the Politics of Rights and Democracy in Latin America*. Hampshire: Palgrave.
- Kanthak, Kristin a Jonathan Woon. 2015. "Women Don't Run? Election Aversion and Candidate Entry." *American Journal of Political Science* 59(3):595–612.
- Kenny, Meryl a Tània Verge. 2013. "Decentralization, Political Parties, and Women's Representation: Evidence from Spain and Britain." *Publius: The Journal of Federalism* 43(1):109–128.
- Lühiste, Maarja. 2015. "Party Gatekeepers' Support for Viable Female Candidacy in PR-list Systems." *Politics and Gender* 11(1):89–116.
- Matland, Richard E. a Kathleen A. Montgomery. 2003. *Women's Access to Political Power in Post-Communist Europe*. Oxford University Press.
- Niven, David. 1998. "Party Elites and Women Candidates: The Shape of Bias." *Women & Politics* 19(2):57–80.
- Norris, Pippa a Joni Lovenduski. 1995. *Political Recruitment: Gender, Race and Class in the British Parliament*. Cambridge University Press.
- O'Brien, Diana Z. 2015. "Rising to the Top: Gender, Political Performance, and Party Leadership in Parliamentary Democracies." *American Journal of Political Science* 59(4):1022–1039.
- Pruysers, Scott, William P. Cross, Anika Gauja a Gideon Rahat. 2017. Candidate Selection Rules and Democratic Outcomes: The Impact of Parties on Women's Representation. Yn *Organizing Political Parties Representation, Participation, and Power*, ed. Susan E Scarrow, Paul D. Webb a Thomas Poguntke. Oxford: Oxford University Press.
- Quaranta, Mario a Giulia M Dotti Sani. 2018. "Left behind? Gender gaps in political engagement over the life course in twenty-seven European countries." *Social Politics: International Studies in Gender, State & Society* 25(2):254–286.
- Reingold, Beth a Jessica Harrell. 2010. "The impact of descriptive representation on women's political engagement: Does party matter?" *Political Research Quarterly* 63(2):280–294.
- Ryan, Michelle K, S Alexander Haslam a Clara Kulich. 2010. "Politics and the Glass Cliff: Evidence That Women Are Preferentially Selected to Contest Hard-to-Win Seats." *Psychology of Women Quarterly* 34(1):56–64.

- Scarrow, Susan E., Paul D. Webb a Thomas Poguntke. 2017. *Organizing Political Parties: Representation, Participation, and Power*. Oxford University Press.
- Scarrow, Susan, Paul D. Webb a Thomas Poguntke. 2022. "Political Party Database Round 2 v4 (first public version)". URL: <https://doi.org/10.7910/DVN/0JVUM8>
- Schneider, Monica C, Mirya R Holman, Amanda B Diekman a Thomas McAndrew. 2016. "Power, conflict, and community: How gendered views of political power influence women's political ambition." *Political Psychology* 37(4):515–531.
- Sevilla-Sanz, Almudena, Jose Ignacio Gimenez-Nadal a Cristina Fernández. 2010. "Gender roles and the division of unpaid work in Spanish households." *Feminist Economics* 16(4):137– 184.
- Suteu, Silvia. 2020. Gender in Comparative Constitutional Change. Yn *Routledge Handbook of Comparative Constitutional Change*. Routledge.
- Teele, Dawn Langan, Joshua Kalla a Frances Rosenbluth. 2018. "The Ties That Double Bind: Social Roles and Women's Underrepresentation in Politics." *The American Political Science Review; Washington* 112(3):525–541.

**Atodiad**Tabl A.1: Pleidiau Seneddol yn y Gronfa Ddata  
Pleidiau Gwleidyddol

| Gwlad      | Enw'r Blaid                                   | Teulu Pleidiau |
|------------|---|----------------|
| Awstralia  | Labor Party                                   | Chwith         |
| Awstralia  | Liberal Party                                 | Dde            |
| Awstralia  | National Party                                | Arall          |
| Awstralia  | The Greens                                    | Chwith         |
| Gwlad Belg | Christian-Democrat and Flemish                | Dde            |
| Gwlad Belg | Democrat Humanist Centre                      | Dde            |
| Gwlad Belg | Democratic, Federalist, Independent           | Arall          |
| Gwlad Belg | Ecolo   | Chwith         |
| Gwlad Belg | Flemish Interest                              | Arall          |
| Gwlad Belg | Gwyrdd  | Chwith         |
| Gwlad Belg | New Flemish Alliance                          | Arall          |
| Gwlad Belg | Open Flemish Liberals and Democrats           | Rhyddfrydol    |
| Gwlad Belg | People's Party                                | Arall          |
| Gwlad Belg | Reform Movement                               | Rhyddfrydol    |
| Gwlad Belg | Socialist Party                               | Chwith         |
| Gwlad Belg | Socialist Party Alternative                   | Chwith         |
| Gwlad Belg | Workers' Party of Belgium                     | Arall          |
| Botswana   | Botswana Congress Party (BCP)                 | Chwith         |
| Botswana   | Botswana Democratic Party (BDP)               | Arall          |
| Bwlgaria   | Bulgarian Socialist Party                     | Chwith         |
| Bwlgaria   | Citizens for European Development of Bulgaria | Arall          |
| Bwlgaria   | Movement for Rights and Freedoms              | Arall          |
| Bwlgaria   | United Patriots                               | Arall          |
| Bwlgaria   | Volya   | Arall          |
| Canada     | Conservative Party                            | Dde            |
| Canada     | Green Party                                   | Chwith         |
| Canada     | Liberal Party                                 | Rhyddfrydol    |
| Canada     | New Democratic Party                          | Chwith         |
| Denmarc    | Conservatives                                 | Dde            |
| Denmarc    | Danish People's Party                         | Arall          |
| Denmarc    | Liberal Alliance                              | Rhyddfrydol    |
| Denmarc    | Liberals                                      | Rhyddfrydol    |

|             |  |             |
|-------------|--|-------------|
| Denmarc     | Red-Green Alliance                     | Arall       |
| Denmarc     | Social Democrats                       | Chwith      |
| Denmarc     | Social Liberal Party                   | Rhyddfrydol |
| Denmarc     | Socialist People's Party               | Arall       |
| Denmarc     | The Alternative                        | Chwith      |
| Estonia     | Centre Party                           | Rhyddfrydol |
| Estonia     | Conservative People's Party            | Dde         |
| Estonia     | Free Party                             | Dde         |
| Estonia     | Pro Patria and Res Publica Union       | Dde         |
| Estonia     | Reform Party                           | Rhyddfrydol |
| Estonia     | Social Democratic Party                | Chwith      |
| Yr Almaen   | Alliance '90/The Greens                | Chwith      |
| Yr Almaen   | Alternative for Germany                | Arall       |
| Yr Almaen   | Christian Democratic Union             | Dde         |
| Yr Almaen   | Christian Social Union                 | Dde         |
| Yr Almaen   | Free Democratic Party                  | Rhyddfrydol |
| Yr Almaen   | Social Democratic Party                | Chwith      |
| Yr Almaen   | The Left                               | Arall       |
| Gwlad Groeg | Coalition of the Radical Left (Syriza) | Arall       |
| Gwlad Groeg | Communist Party of Greece (KKE)        | Arall       |
| Gwlad Groeg | Independent Greeks (ANEL)              | Arall       |
| Gwlad Groeg | New Democracy (ND)                     | Dde         |
| Gwlad Groeg | Panhellenic Socialist Movement (PASOK) | Chwith      |
| Gwlad Groeg | The River                              | Rhyddfrydol |
| Hwngari     | Democratic Coalition                   | Chwith      |
| Hwngari     | Fidesz - Hungarian Civic Alliance      | Arall       |
| Hwngari     | Jobbik                                 | Arall       |
| Hwngari     | Politics Can Be Different              | Chwith      |
| Hwngari     | Socialist Party                        | Chwith      |
| Israel      | All of Us                              | Rhyddfrydol |
| Israel      | Balad                                  | Arall       |
| Israel      | Hadash                                 | Arall       |
| Israel      | Labor Party                            | Chwith      |
| Israel      | Likud                                  | Dde         |
| Israel      | Meretz                                 | Chwith      |
| Israel      | The Jewish Home                        | Arall       |
| Israel      | The Movement                           | Rhyddfrydol |

|                |  |             |
|----------------|--|-------------|
| Israel         | There is a Future  | Rhyddfryfol |
| Israel         | Yisrael Beiteinu   | Arall       |
| Yr Eidal       | Brothers of Italy  | Arall       |
| Yr Eidal       | Democratic Party   | Chwith      |
| Yr Eidal       | Five Stars Movement  | Arall       |
| Yr Eidal       | Italian Force  | Rhyddfryfol |
| Yr Eidal       | Northern League  | Arall       |
| Japan          | Communist Party  | Arall       |
| Japan          | Democratic Party   | Chwith      |
| Japan          | Komeito  | Arall       |
| Japan          | Liberal Democratic Party   | Dde         |
| Japan          | Nippon Ishin   | Dde         |
| Japan          | Social Democratic Party  | Chwith      |
| Japan          | The Constitutional Democratic Party of Japan                         | Rhyddfryfol |
| Japan          | The Party of Hope  | Arall       |
| Latfia         | Alliance of Regions  | Arall       |
| Latfia         | Farmers' Union of Latvia   | Arall       |
| Latfia         | Green Party of Latvia  | Chwith      |
| Latfia         | KPV LV   | Arall       |
| Latfia         | National Alliance  | Arall       |
| Latfia         | New Conservative Party   | Dde         |
| Latfia         | Social Democratic Party "Harmony"                                    | Chwith      |
| Latfia         | Unity  | Rhyddfrydol |
| Latfia         | Vidzeme Party  | Arall       |
| Lithwania      | Electoral Action of Poles in Lithuania – Christian Families Alliance | Arall       |
| Lithwania      | Homeland Union - Lithuanian Christian Democrats                      | Dde         |
| Lithwania      | Labour Party   | Arall       |
| Lithwania      | Liberal Movement   | Rhyddfrydol |
| Lithwania      | Lithuanian Farmers and Greens Union                                  | Arall       |
| Lithwania      | Order and Justice  | Arall       |
| Lithwania      | Social Democratic Labour Party of Lithuania                          | Chwith      |
| Lithuania      | Social Democratic Party of Lithuania                                 | Chwith      |
| Yr Iseldiroedd | 50PLUS   | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | Christian Democratic Appeal  | Dde         |
| Yr Iseldiroedd | Christian Union  | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | DENK   | Arall       |


|                |   |             |
|----------------|---|-------------|
| Yr Iseldiroedd | Democrats 66                                    | Rhyddfrydol |
| Yr Iseldiroedd | Forum for Democracy                             | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | Green Left                                      | Chwith      |
| Yr Iseldiroedd | Labour Party                                    | Chwith      |
| Yr Iseldiroedd | Party for Freedom                               | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | Party for the Animals                           | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | People's Party for Freedom and Democracy        | Rhyddfrydol |
| Yr Iseldiroedd | Reformed Political Party                        | Arall       |
| Yr Iseldiroedd | Socialist Party                                 | Arall       |
| Norwy          | Centre Party                                    | Arall       |
| Norwy          | Christian Democratic Party                      | Dde         |
| Norwy          | Conservative Party                              | Dde         |
| Norwy          | Labour Party                                    | Chwith      |
| Norwy          | Liberal Party                                   | Rhyddfrydol |
| Norwy          | Progress Party                                  | Arall       |
| Norwy          | Coch  | Arall       |
| Norwy          | Socialist Left Party                            | Arall       |
| Norwy          | The Greens                                      | Chwith      |
| Gwlad Pwyl     | Law and Justice                                 | Dde         |
| Gwlad Pwyl     | Modern (Nowoczesna)                             | Rhyddfrydol |
| Slofacia       | Bridge  | Arall       |
| Slofacia       | Christian Democratic Movement                   | Dde         |
| Slofacia       | Direction – Social Democracy                    | Chwith      |
| Slofacia       | Freedom and Solidarity                          | Rhyddfrydol |
| Slofacia       | Kotleba – People's Party Our Slovakia           | Arall       |
| Slofacia       | Ordinary People and Independents                | Dde         |
| Slofacia       | Party of the Hungarian Community                | Arall       |
| Slofacia       | Progresive Slovakia                             | Rhyddfrydol |
| Slofacia       | Slovak National Party                           | Dde         |
| Slofacia       | Together -Civic Democracy                       | Rhyddfrydol |
| Slofacia       | We Are Family                                   | Arall       |
| De Affrica     | African National Congress                       | Chwith      |
| De Affrica     | Democratic Alliance                             | Rhyddfrydol |
| De Affrica     | Economic Freedom Fighters                       | Arall       |
| Sbaen          | Basque Nationalist Party                        | Arall       |
| Sbaen          | Dinasyddion                                     | Rhyddfrydol |
| Sbaen          | PDECAT - European Democratic Party of Catalonia | Arall       |

|                     |   |             |
|---------------------|---|-------------|
| Sbaen               | People's Party                                      | Dde         |
| Sbaen               | Republican Left of Catalonia                        | Arall       |
| Sbaen               | Socialist Party                                     | Chwith      |
| Sbaen               | United Left   | Arall       |
| Sbaen               | Podemos   | Arall       |
| Sweden              | Centre Party  | Arall       |
| Sweden              | Christian Democrats                                 | Dde         |
| Sweden              | Green Party   | Chwith      |
| Sweden              | Left Party  | Arall       |
| Sweden              | Liberal Party                                       | Rhyddfrydol |
| Sweden              | Moderate Party                                      | Dde         |
| Sweden              | Social Democrats                                    | Chwith      |
| Sweden              | Sweden Democrats                                    | Arall       |
| Y Swistir           | Christian Democratic People's Party                 | Dde         |
| Y Swistir           | Swiss People's Party/Democratic Union of the Centre | Arall       |
| Y Swistir           | Swiss Socialist Party                               | Chwith      |
| Y Swistir           | The Liberals  | Rhyddfrydol |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Y Blaid Geidwadol                                   | Dde         |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Y Blaid Werdd                                       | Chwith      |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Y Blaid Lafur                                       | Chwith      |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Democratiaid Rhyddfrydol                            | Rhyddfrydol |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Plaid Cymru   | Arall       |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Plaid Genedlaethol yr Alban                         | Arall       |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig                 | Arall       |

---

Tabl A.2: Dosbarthiad Teuluoedd

| Pleidiau Categori ideolegol (eang) | Teulu pleidiau (cul)   |
|------------------------------------|--|
| Chwith                             | Democratiaid Cymdeithasol<br>Gwyrddion   |
| Rhyddfrydol                        | Rhyddfrydwyr   |
| Dde                                | Ceidwadwyr<br>Democratiaid Cristnogol  |
| Arall                              | Amaethyddol/Plaid Ffermwyr<br>Rhanbartholaidd<br>Dde pell (dde eithafol) Asgell dde<br>(poblogyddion) Comiwnyddion neu Sosialwyr<br>Chwith<br>Ethnig<br>Arall<br>Cyffesiadol, heblaw Democratiaid Cristnogol |



Ffigur A.1: Yr uned sy'n rhoi fetu ar ymgeiswyr



# Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig

Dr William T Daniel | Athro Cyswllt mewn Gwleidyddiaeth Gymharol  
Ysgol Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Nottingham

## Crynodeb gweithredol

- Defnyddir cwotâu rhywedd ledled y byd, ac maent yn llwyddo i gynyddu neu sicrhau cynrychiolaeth menywod mewn sefydliadau cyhoeddus a phreifat.
- Mae llwyddiant cwota yn dibynnu ar ffactorau o systemau etholiadol cyfrannol, mathau o bleidleisiau, rheolau gosodiad, a systemau gorfodi.
- Mae cwota arfaethedig Senedd Cymru yn gwota cryf; o ystyried data ar gwotâu presennol, gellir disgwyl hyrwyddo a chadw cynrychiolaeth gyfartal o ran rhywedd wrth i'r ddeddfwrfa gael ei hehangu.

## Tabl cynnwys

|  |    |
|--|----|
| <i>Crynodeb gweithredol</i> .....          | 1  |
| <i>Cyd-destun byd-eang</i> .....           | 1  |
| <i>Cyd-destun Cymru</i> .....              | 4  |
| <i>Canlyniadau modelu</i> .....            | 6  |
| <i>Effeithiau a ragwelir i Gymru</i> ..... | 11 |
| <i>Casgliadau</i> .....                    | 13 |
| <i>Diolchiadau</i> .....                   | 13 |
| <i>Gwaith a ddyfynnwyd</i> .....           | 13 |

## Cyd-destun byd-eang

Defnyddir cwotâu rhywedd mewn llawer o leoliadau ledled y byd. Er eu bod yn bodoli yn y sector preifat – yn enwedig mewn meysydd fel byrddau corfforaethol – maent yn codi'n amlach mewn sefyllfaoedd llywodraethol, ac yn enwedig mewn lleoliadau deddfwriaethol. Yn wleidyddol, gellir defnyddio cwotâu i hyrwyddo gwahanol hunaniaethau a dangynrychiolir (e.e. o ran iaith, ethnigrwydd a gallu), ond mae'r cwotâu mwyaf nodweddiadol yn ymwneud â chynhwysiant rhywedd. Yn 2024, mae cwotâu rhywedd yn cael eu defnyddio mewn bron i 80 o seneddau cenedlaethol (y tai seneddol uchaf ac isaf, fel ei gilydd), yn ogystal ag mewn llywodraethau is-genedlaethol a lleol, mewn ystod debyg o wledydd ([International IDEA 2024](#)).

Gall cwotâu rhywedd naill ai fod yn rhai *deddfwriaethol*, sy'n golygu eu bod yn fater o gyfraith genedlaethol ac yn berthnasol ar draws y system wleidyddol, neu gellir eu dewis fel *cwotâu plaid* ar gyfer symudiadau gwleidyddol penodol yn unig o fewn system (Franceschet, Krook, a Piscopo 2012; Krook 2010). System gysylltiedig yw *seddi cadw*, sy'n clustnodi cyfran o seddi

ar gyfer deddfwyr o gefndir penodol; mae'r rhain yn gymharol llai cyffredin ar gyfer rhywedd ac fe'u defnyddir yn fwyaf nodweddiadol mewn cymdeithasau lle mae angen gwarantu isafswm cynrychiolaeth o gefndiroedd ethnig neu gymdeithasol (Tan 2015).

### *Cryfder cwota*

Cyfeirir yn aml at effeithiolrwydd cwota rhywedd fel 'cryfder' cwota. Mae gwyddonwyr gwleidyddol wedi dangos bod gwahanol fathau o gwotâu yn fwy effeithiol o ran hyrwyddo cynrychiolaeth menywod, yn enwedig ar y cyd â dewisiadau sefydliadol a wneir ynghylch dylunio systemau etholiadol (Paxton a Hughes 2015). Mae'r prif bwyntiau penderfynu yma yn ymwneud â chymesuredd etholiadol, rhestrau etholiadol a chynllun pleidleisiau, y defnydd o fandadau gosodiad a throthwyau gofynnol, a gorfodi polisiau cwota (h.y. sancsiynau neu gymhellion i ddilyn yr hyn a ddeddfir). At hynny, mae gan bleidiau gwleidyddol eu hunain rôl i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu recriwtio o gronfa amrywiol addas a'u henwebu i swyddi y gellir eu hennill (Fortin-Rittberger a Rittberger 2014, 2015), a drafodir yn fanylach yn y briff cysylltiedig.

### *Systemau etholiadol: Cynrychiolaeth Gyfrannol v. y Cyntaf i'r Felin*

O ran cynllun system etholiadol, mae llenyddiaeth gwyddoniaeth wleidyddol yn glir: mae cynrychiolaeth gyfrannol (PR) yn ffafrio cynrychiolaeth menywod i raddau mwy helaeth na chystadlaethau mwyafrifol, neu 'y Cyntaf i'r Felin' (Dahlerup 2006; Franceschet, Krook, a Piscopo 2012 ). Hyd yn oed heb gwota, mae enwebu ymgeiswyr lluosog mewn cystadleuaeth ar yr un pryd (h.y. rhestr plaid sengl) yn symud ffocws pleidleiswyr oddi wrth nodweddion personol ymgeiswyr – megis eu rhywedd – ac yn fwy tuag at y pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u henwebu. O ran rhoi cwota ar waith, mae etholiadau PR yn gwneud y rhain yn llawer haws i'w gweithredu. Yn lle gorfod dewis un ymgeisydd yn unig, fesul etholaeth – megis y Cyntaf i'r Felin – gall ymgeiswyr lluosog redeg ar yr un pryd ar gyfer yr un etholaeth (a all fod yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol). Mae hyn yn golygu bod cefndiroedd personol nid yn unig yn llai hanfodol, ond mae natur ymgeiswyr lluosog yn golygu y gall mwy o amrywiaeth fodoli ar lefel gyfunol (Fortin-Rittberger a Rittberger 2014).

Yn weithredol, po fwyaf o ymgeiswyr a etholir fesul etholaeth, y mwyaf cyfrannol yw'r system etholiadol. Yma, mae hyd y rhestr yn newidyn diffiniol allweddol, gyda rhestrau hwy yn golygu etholiadau mwy cyfrannol. At hynny, gall hyn, yn ei dro, gael effaith ar sail rhywedd, gan fod rhestrau hwy yn golygu y gellir ethol mwy o fathau o bobl i gynrychioli etholaeth benodol. Os defnyddiwyd cwotâu i warantu neu hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd ar y rhestrau hyn, yna maent hefyd yn fwy tebygol o gynhyrchu dosbarthiad mwy cyfartal rhwng y rhyweddau o ddeddfwyr etholedig.

### *Trothwy etholiadol*

Un nodwedd allweddol mewn unrhyw gwota yw'r trothwy isaf o fenywod sy'n ofynnol i ymddangos ar y rhestr. Wrth gwrs, mae gofyniad o ran cydraddoldeb (fel a ddefnyddir yn Ffrainc), yn drothwy arbennig o uchel ac mae angen niferoedd cyfartal o ddynion a menywod. Mae deddfwrfeydd eraill yn defnyddio lleiafswm ychydig yn is, e.e. rhaid i 40% o ymgeiswyr fod yn fenywod. Yn y lle cyntaf, gosodwyd llawer o gwotâu ar 30%, o ystyried bod trafodaeth hirsefydlog mewn llenyddiaeth ynghylch rhywedd a chynrychiolaeth wleidyddol – y cyfeirir ato fel 'màs critigol' (Grey 2006; Lovenduski 2001) – yn awgrymu bod angen i o leiaf traean o'r deddfwyr fod yn fenywod, at ddibenion unrhyw gynnydd

cynaliadwy ar faterion menywod sy'n destun trafod gan y ddeddfwrfa. Fodd bynnag, mae angen trothwy llai na hyn ar ddeddfwrfeydd eraill. Nid yw'n anghyffredin ychwaith gweld gwledydd yn cynyddu eu trothwyon dros amser (Hughes et al. 2017).

### *Mathau o restrau*

Wrth gwrs, mae mecaneg yr etholiad yn bwysig, hefyd. Pan mai dim ond ar gyfer rhestr plaid y gall pleidleiswyr bleidleisio (a elwir yn nodweddiadol yn 'rhestr gaeedig'), maent fel arfer yn derbyn y drefn restrol a ddarparwyd gan y blaid wleidyddol, o ran pa ymgeiswyr penodol sy'n cael eu hethol i'w swyddi. Mae hyn yn awgrymu mai'r pleidiau sy'n penderfynu pa wleidyddion penodol sydd mewn manau ar y rhestr y gellir eu hennill; yn syml, rhaid i bleidleiswyr dderbyn y dewis hwn, os byddant yn dewis y blaid. Ar y llaw arall, mae 'rhestrau agored' yn caniatáu i bleidleiswyr fwrw pleidleisiau ar draws pleidiau lluosog (h.y. ar gyfer gwahanol unigolion o wahanol bleidiau). Yn fwy cyffredin, fodd bynnag, mae rhestrau hyblyg neu 'lled-agored', lle mae'n rhaid i bleidleiswyr gyfyngu eu pleidleisiau i blaid benodol, ond gallant naill ai ffafrio ymgeiswyr unigol o fewn rhestr y blaid – neu hyd yn oed aildrefnu'r rhestr yn gyfan gwbl.

O ran cydraddoldeb rhywedd, mae'r llenyddiaeth academiaidd braidd yn gymysg, ond mae'n tueddu i ddisgwyl bod rhestrau caeedig yn arwain at ddeilliannau mwy cyfartal o ran rhywedd (Allik 2015; Corrêa a Chaves 2020; Kunovich 2012; Luhiste 2015). Gan gymryd bod rhestrau etholiadol wedi'u sefydlu i gynhyrchu canlyniadau cyfartal, mae natur rhestrau caeedig yn dileu gallu pleidleiswyr i wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr unigol. O ystyried bod llawer o enwau yn amlwg yn ôl rhywedd, gallai rhestr agored arwain at ganlyniad lle mae ymgeiswyr benywaidd yn cael eu 'dad-ddewis' yn benodol gan bleidleiswyr.

### *Mandadau gosodiad*

Gall pleidiau gwleidyddol – o ystyried mai nhw sydd â'r dasg nodweddiadol o ddrafftio rhestrau ymgeiswyr – chwarae rhan fawr yn y gwaith o benderfynu pa ymgeiswyr sydd fwyaf tebygol o ennill o blith eu nifer lawn o ymgeiswyr a restrir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan ddefnyddir cwotâu rhywedd, gan nad yw hyd yn oed cwotâu â throthwy cymharol uchel bob amser yn cynnwys y gofyniad bod menywod sydd wedi'u cynnwys ar restrau etholiad yn cael eu rhoi mewn safleoedd 'ennilladwy'. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n dychmygu plaid y mae'n rhaid iddi restru 50% o'i 10 ymgeisydd fel menywod, ond sy'n gosod yr ymgeiswyr hyn yn y pum lle olaf. O ganlyniad, mae llawer o systemau cwota hefyd yn cynnwys *mandadau gosodiad*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fenywod gael eu gosod mewn safleoedd nad ydynt yn llai ennilladwy na'u cydweithwyr sy'n ddynion. Un ffordd glir o wneud hyn yw'r *rhestr trefn am-yn-ail*, lle mae merched a dynion yn cael eu cyfnewid am yn ail drwy'r rhestr. Mae gwledydd eraill yn defnyddio trefniadau mwy pwrpasol. Er enghraifft, efallai y byddwch am i'r ail a'r trydydd ymgeisydd fod yn fenywod – pe bai'r ymgeisydd ar frig y rhestr yn ddyn – neu fod o leiaf dwy fenyw o bob pum ymgeisydd ar restr, ac ati.

Y tu hwnt i rywedd, mae pleidiau sydd wedi arfer gweithio gyda threfniadau rhestru yn aml yn ystyried cydbwysio mathau eraill o gefndir wrth lunio rhestr plaid. Er enghraifft, mae pleidiau adain chwith o bob rhan o Ewrop yn hanesyddol wedi gwneud yn siŵr bod ymgeiswyr o gefndiroedd undebau llafur yn ymddangos ar sail gyfartal ymhlith rhestr plaid (Rahat a Hazan 2001). Mewn sawl gwlad Ewropeaidd, efallai y bydd arweinwyr mudiadau ieuencid ac actifyddion eraill yn ymddangos mewn safleoedd 'annetholadwy'



ond gweladwy (Hooghe, Stolle, a Stouthuysen 2004; Reiser 2014). Yng Ngwlad Pwyl a Gwlad Belg, mae hyd yn oed enghreifftiau o bleidiau sy'n rhestru enwau y gellir eu hadnabod mewn safleoedd anetholedig iawn – megis y safle olaf – fel ffordd o hybu brand plaid ac adnabyddiaeth o enwau (Marcinkiewicz 2014).

At hynny, mae'n werth nodi nad yw rhestr etholiadol bob amser yn cyfateb i union ddilyniant yr ymgeiswyr etholedig sy'n cymryd eu seddi. Mae'n berffaith gredadwy – ac yn wir, yn gyffredin yn Senedd Ewrop – i bleidiau restru dilyniant o ymgeiswyr ar frig rhestr nad oes ganddynt unrhyw fwriad i gymryd eu sedd. Mewn achosion o'r fath, bydd pleidiau'n symud i lawr y rhestr nes bod yr holl seddau a ddyfarnwyd i'r blaid wedi'u llenwi.

### *Gorfodi*

Nid yw pob cwota deddfwriaethol, neu gwota plaid yn cael ei ddilyn gan bleidiau gwleidyddol yn y ffordd y cânt eu cynllunio. Yn aml mae angen systemau gorfodi i gymhell partïon i ddilyn y rheolau. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y sefyllfa hon, weithiau gall pleidiau ddewis torri gofynion cwota a thalu dirwy neu ildio cyllid cyhoeddus, gan flaenoriaethu agweddau eraill dros gydraddoldeb rhywedd, wrth ddewis ymgeiswyr. Byddai fersiwn gryfach o orfodi yn caniatáu i gorff y llywodraeth wrthod unrhyw restr etholiadol ddrafft nad oedd yn bodloni'r cwota. Gellir dychwelyd rhestrau i bartïon i'w golygu neu eu gwrthod yn gyfan gwbl (Hughes et al. 2017; Schwindt-Bayer 2009). Mae'r system cyllid pleidiau, cyfrifoldeb archwilio, a phresenoldeb actorion allweddol sy'n gallu rhwystro rhestrau nad ydynt yn cydymffurfio rhag cofrestru, i gyd yn allweddol o ran gorfodi, ac felly rhoi cwotâu ar waith.

## Cyd-destun Cymru

Ar ôl darparu cyd-destun byd-eang, defnyddiaf yr adran hon i roi sylwadau ar y cwota arfaethedig sy'n ymddangos yn y gwelliannau arfaethedig i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ym Mil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Fy nod yma yw rhoi'r modd y gellir cymharu cynnig Cymru â chwotâu eraill sy'n bodoli eisoes yn ei gyd-destun. *Yn fy marn i, mae cynnig y Llywodraeth yn cynrychioli cwota cryf.*

### *Y system etholiadol*

Mae natur y diwygio etholiadol ehangach i system rhestr drwy ddull pleidleisio cyfrannol llwyr, yn hwyluso ychwanegu cwota rhywedd. Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yma yw'r disgwyliad y bydd y system etholiadol newydd yn cael ei chynnal drwy restrau caeëdig rhanbarthol, sydd, fel y soniwyd uchod, yn rhoi'r pleidiau'n gadarn reolaeth dros ddewis ymgeiswyr – tra hefyd yn dadberonoli'r dewis o bleidleisiau. *Dylai hyn sicrhau – gan dybio bod pleidiau'n llunio rhestrau sy'n dilyn y gyfraith gwota newydd – na fydd ymgeiswyr o dan anfantais gan bleidleiswyr yn ystod yr etholiad.*

### *Cryfder cwota*

Mae cryfder y cwota o 50% hefyd yn gosod cwota Cymru ar ben cryfaf y sbectrwm. Fel y dangosir isod, mae cwotâu cryfach yn fwy tebygol o sicrhau cynrychiolaeth fwy cyfartal. Maent hefyd yn dad-bwysleisio'r argoeliad o 'fenywod cwota,' a ddefnyddir weithiau mewn systemau i awgrymu bod rhai menywod yn haeddu eu lle i raddau llai. Er fy mod wedi ysgrifennu'n helaeth ar y nodweddion cadarnhaol y gall cwotâu eu hwyluso (Aldrich

a Daniel 2020, 2024), o ran cymwysterau ac arbenigedd cefndirol, *mae cael nifer cyfartal o ymgeiswyr yn ddynion a merched yn gwneud i bob ymgeisydd ymddangos yn rhan o broses a rennir* – yn hytrach na chymysgedd o wleidyddion sy'n fwy a llai 'haeddiannol' .

Yn hyn o beth, mae hefyd yn ddefnyddiol bod y Senedd yn cael ei hehangu *wrth i* gwotâu ddod i rym. Un rhwystr mawr sy'n atal menywod rhag cael mynediad i swyddi etholedig yw'r manteision enfawr o wleidyddion presennol yn ceisio cael eu hail-ethol. Mewn geiriau eraill, os yw eisoes yn anoddach dad-swyddo deiliad – a bod y deiliaid, i raddau anghymesur, yn ddynion – yna mae hyn yn creu rhwystr ychwanegol i hwyluso cynrychiolaeth menywod, hyd yn oed o dan gwotâu. *Dylai'r cyfuniad o seddi newydd gyda chyfraith cwota newydd hwyluso mynediad pellach i fenywod.*

### *Mandad gosodiad*

O ran y mandad gosodiad, *dylid barnu bod y meini prawf fertigol a llorweddol arfaethedig mor swyddogaethol â chwotâu am-yn-eilio, er bod y meini prawf llorweddol yn gwneud cynnig Cymru hyd yn oed yn gryfach.* Mewn ymchwil sydd ar ddod ar roi cwotâu ar waith yn etholiadau Senedd Ewrop (Aldrich a Daniel 2025), mae fy nghydweithiwr a minnau'n dod i'r casgliad bod cwotâu yn aml yn cynhyrchu mwy o ymgeiswyr benywaidd mewn swyddi etholadwy, ond y gallent ddod ar draul menywod yn ymddangos mewn rolau sy'n arwain y rhestr. Drwy ei gwneud yn ofynnol i fenywod ymddangos yn gyntaf ar y rhestr ar niferoedd cyfartal o restrau etholaethol, gall y Senedd osgoi sefyllfa lle mae ymgeiswyr benywaidd yn dod yn 'ail' i ddynion fel mater o drefn, hyd yn oed os caiff y ddau eu hethol yn y pen draw.

Mae'n werth nodi un gair o rybudd, yn seiliedig ar adran 8 bresennol y bil ("*Calculation of seat allocation*"). Fel y trafodwyd yn yr enghreifftiau uchod (nad ydynt yn ymwneud yn benodol â rhywedd), mae cynsail helaeth i bleidiau hepgor trefn eu rhestr o dan etholiadau PR rhestr gaeedig (Millard 2014). Gellir gwneud hyn trwy restru ymgeiswyr mewn safleoedd y gellir eu hennill, ond yn ymgeiswyr sy'n annhebygol o gymryd eu sedd (Daniel 2015). *Gellid dychmygu sefyllfa debyg yn codi wrth roi'r mandad gosodiad ar waith, lle gallai plaid restru ymgeisydd annidwyll sy'n cael ei ethol, ond sy'n gwrthod ymgymryd â'i rôl.*

Byddai digwyddiad o'r fath, pe bai'n sefydliadol, yn awgrymu y gallai pleidiau barhau i osgoi rheolau o ran gosodiad a throthwy, drwy enwebu menywod a fyddai – drwy wrthod eu sedd – yn trosglwyddo eu lle, i bob pwrpas, i'r dyn sy'n dilyn. Er nad yw'n gyffredin yn Ewrop, mae rhywfaint o gynsail ar gyfer hyn ym Mrasil, lle gwyddys bod pleidiau'n restru ymgeiswyr nad oeddent hyd yn oed yn ymwybodol bod eu plaid wedi'u dewis – a hynny yn enw bodloni cwota (Gatto a Wylie 2022).

### *Gorfodi*

Yn olaf, *mae rôl arfaethedig y swyddog cydymffurfio enwebiadau cenedlaethol a'r swyddogion canlyniadau etholaeth – a fyddai'n caniatáu iddynt wrthod neu ddiwygio restrau ymgeiswyr arfaethedig – ymhlith y sancsiwn cryfaf posibl ar gyfer gorfodi cwota.* Er hyn, fel y trafodaf isod, nid yw'n debygol o fod yn nodwedd fawr mewn gweithrediad dyddiol – gellir ystyried bod y dasg o sicrhau bod gofynion cwota yn cael eu bodloni gan y swyddogion hyn yn anfon neges bwysig i'r pleidiau gwleidyddol ynghylch difrifoldeb y gofynion cwota.

## Canlyniadau modelu

Fel rhan o'n monograff sydd ar ddod (Aldrich a Daniel 2025), casglodd fy nghydweithiwr a minnau ddata cefndir ar yrfaeodd gwleidyddol a demograffeg holl Aelodau Senedd Ewrop (ASE) ers dechrau etholiadau uniongyrchol, 1979-2022. At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddiwyd y data hyn gennym i adeiladu model rhagfynegol sy'n cynnig rhai enghreifftiau o'r modd y gellid disgwyl i gyfansoddiad Senedd Cymru newid, pe byddai'r bil cwota yn cael ei roi ar waith.

### *Adeiladu'r model*

Dyma ddechrau arni drwy baru gwybodaeth am gefndiroedd ASEau â gwybodaeth am gwotâu deddfwriaethol a chwotâu pleidiau o bob rhan o Ewrop. At hynny – ar wahân – fe wnaethom gasglu data ychwanegol ar yr holl ymgeiswyr sydd wedi ceisio cael eu hethol i Senedd Ewrop ers 1999, i gymharu'r ymgeiswyr sydd ar gael â'r gwleidyddion a etholwyd.

Un fantais i'n dull o gasglu data yw bod etholiadau Senedd Ewrop wedi'u cynnal yn uniongyrchol ers 1979 ond yn gwneud hynny gan ddefnyddio systemau etholiadol gwlad-benodol, sydd fel arfer yn adlewyrchu'r rheini sydd ar waith ar gyfer seneddau cenedlaethol. Y pleidiau gwleidyddol cenedlaethol sy'n dewis ymgeiswyr, hefyd. Mewn geiriau eraill, trwy astudio'r 28 o wahanol wledydd sydd wedi ethol ASEau ers 1979, gallwn ddysgu gwybodaeth gymaradwy werthfawr am 28 o systemau etholiadol Ewropeaidd gwahanol.

O ran cwotâu rhywedd, mae set hynod amrywiol o reolau a pholisïau gwahanol sy'n bwydo i mewn i'r corff cyffredin o ddeddfwyr etholedig. Mae etholiadau Ewropeaidd yn bodoli ar amserlen gyffredin – a gynhelir bob pum mlynedd – ac yn rhannu'r disgwyliad y bydd rhywfaint o gynrychiolaeth gyfrannol yn cael ei defnyddio. Y tu hwnt i hynny, mae pob gwlad yn defnyddio system ychydig yn wahanol. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweld enghreifftiau o gwotâu rhywedd deddfwriaethol a phleidiau ar waith, ochr yn ochr â thrynewidiadau lluosog o restrau agored a chaeedig, cyfnodau pleidleisio byrrach a hwy, presenoldeb – ac absenoldeb – mandadau gosodiad, ac ati. Gall ein model rhagfynegol, felly, dynnu sawl casgliad empirig ynghylch pa fathau o systemau etholiadol sydd fwyaf dylanwadol o ran hyrwyddo cynrychiolaeth menywod.

Mae crynodeb o'r cwotâu deddfwriaethol cenedlaethol sy'n ymddangos yn ein set ddata, a blwyddyn eu mabwysiadu, fel a ganlyn:

| <u>Gwlad</u> | <u>Blwyddyn</u> |
|--------------|-----------------|
| Gwlad Belg   | 1994*           |
| Yr Eidal     | 1999, 2019*     |
| Ffrainc      | 1999*           |
| Slofenia     | 2004            |
| Portiwgal    | 2006            |
| Sbaen        | 2007            |
| Croatia      | 2008*           |
| Gwlad Pwyl   | 2011            |
| Iwerddon     | 2012            |

Gwlad Groeg 2012

Lwcsembwrg 2016

\*Cyflwynodd Gwlad Belg ddeddfwriaeth cydraddoldeb ym 1994 ond addaswyd hyn i fesurau llymch yn 2002 a 2009, gan sefydlu cydraddoldeb ar restrau pleidiau yn y pen draw. Pasiodd Ffrainc ddarpariaethau cydraddoldeb cyfansoddiadol ym 1999 a deddf cydraddoldeb yn 2000. Cyflwynodd yr Eidal gwota ym 1999 ond fe'i dilëwyd yn ddiweddarach, gan ailsefydlu'r cwota yn 2019. Pasiodd Croatia ddeddfwriaeth yn 2008 ond caniatodd ar gyfer proses raddol o'i rhoi ar waith.

Rydym hefyd yn ystyried cwtâu pleidiau, sydd weithiau'n bodoli mewn systemau heb gwotâu deddfwriaethol cenedlaethol, ond sydd, serch hynny, yn amlwg (e.e. Sweden a'r Almaen). Mae cwtâu pleidiau gwirfoddol i'w cael yn ein set ddata ar gyfer 17 o'r 28 o aelod-wladwriaethau presennol a blaenorol yr UE. Maent yn bresennol ar wahanol adegau rhwng 1979 a 2019 ar gyfer o leiaf 40 o bleidiau gwleidyddol cenedlaethol gwahanol:

| Gwlad          | Plaid  | Blwyddyn<br>Senedd Ewrop* |
|----------------|--|---------------------------|
| Awstria        | Die Grunen – Die Grune Alternative               | 1994                      |
| Awstria        | Osterreichische Volkspartei                      | 1999                      |
| Awstria        | Sozialdemokratische Partei Osterreichs           | 1994                      |
| Croatia        | Socijaldmokraska Partija Hrvatske                | 2009                      |
| Cyprus         | Dimokratikos Synagermos                          | 2004                      |
| Ffrainc        | Parti communiste francais                        | 1979                      |
| Ffrainc        | Parti socialiste                                 | 1979                      |
| Ffrainc        | Les Verts-Europe-Ecologie                        | 1989                      |
| Yr Almaen      | Bundnis 90/die Grunen                            | 1989                      |
| Yr Almaen      | Sozialdemokratische Partei Deutschlands          | 1989                      |
| Yr Almaen      | Partei des Demokratischen Sozialismus            | 1999                      |
| Yr Almaen      | Die Linke  | 2009                      |
| Yr Almaen      | Christlich Demokratische Union Deutschlands      | 1999                      |
| Yr Almaen      | Christlich-Soziale Union in Bayern               | 1979                      |
| Gwlad Groeg    | Panellinio Socialistiko Kinima                   | 1999                      |
| Gwlad Groeg    | Nea Dimokratia                                   | 1994                      |
| Hwngari        | Magyar Szocialista Party                         | 2014                      |
| Yr Eidal       | Partito democratico                              | 2009                      |
| Lithwania      | Lietuvos socialdemokratu partija                 | 2004                      |
| Lwcsembwrg     | Déi Gréng – Les Verts                            | 2009                      |
| Lwcsembwrg     | Parti populaire chrétien social luxembourgeois   | 2009                      |
| Lwcsembwrg     | Parti ouvrier socialiste luxembourgeois          | 2009                      |
| Malta          | Partit Laburista                                 | 2009                      |
| Yr Iseldiroedd | Partij van de Arbeid                             | 1989                      |
| Rwmania        | Partidul Democrat-Liberal                        | 2009                      |
| Rwmania        | Partidul Social Democrat                         | 2004                      |
| Rwmania        | Partidul Social Democrat + Partidul Conservator  | 2004                      |
| Slofacia       | Ľudová strana – Hnutie za demokratické Slovensko | 2009                      |
| Sbaen          | Partido Socialista Obrero Espanol                | 1999                      |
| Sbaen          | Izquierda Unida                                  | 1989                      |
| Sbaen          | Partit dels Socialistes de Catalunya             | 1989                      |

|                     |                                     |             |
|---------------------|-------------------------------------|-------------|
| Sbaen               | Esquerra Republicana de Catalunya   | 2014        |
| Sbaen               | Bloque Nacionalista Galego          | 2014        |
| Sweden              | Arbetarepartiet- Socialdemokraterna | 1994        |
| Sweden              | Miljöpartiet de Gröna               | 2009        |
| Sweden              | Moderata Samlingspartiet            | 2009        |
| Sweden              | Vänsterpartiet                      | 1994        |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Y Blaid Lafur                       | 1999        |
| Y Deyrnas<br>Unedig | Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol    | 1999 a 2019 |

\*Mae Blwyddyn Senedd Ewrop yn ymwneud â blwyddyn gyntaf sesiwn Senedd Ewrop pan ymddangosodd cwota'r blaid gyntaf. Mewn rhai achosion, efallai bod pleidiau eisoes wedi cael cwotâu, ond heb ymddangos yn ein data oherwydd nad oeddent, eto, yn Senedd Ewrop. Sylwer: rhoddir blwyddyn cychwyn y sesiwn ar gyfer pob plaid, hyd yn oed os mai dim ond rhan o'r ffordd drwy'r tymor yr ymunodd y blaid.

### *Effeithiau modelu*

Rydym yn defnyddio technegau atchweliad aml-amrywedd i amcangyfrif effaith annibynnol amrywiol ddewisiadau dylunio cwotâu, a'u heffaith ar bresenoldeb menywod yn Senedd Ewrop. Mae'r set gyntaf o fodelau yn cymharu effeithiolrwydd cwotâu ar draws dirprwyaethau cenedlaethol i Senedd Ewrop (h.y. pob aelod o bob plaid o fewn gwlad); mae'r ail set o fodelau yn cymharu effeithiolrwydd cwotâu ar bleidiau gwleidyddol (h.y. waeth beth fo'r wlad).

Y newidyn dibynnol (canlyniad) yn ein model yw cyfran yr ASEau benywaidd (boed mewn gwlad neu ddirprwyaeth plaid). Y prif newidyn annibynnol (rhagfynegydd) yw presenoldeb cwota, yr ydym wedyn yn ei drin ar draws gwahanol fathau o opsiynau cwota. Cymhwysir cwotâu i'n data ar lefel plaid, sy'n golygu mewn gwledydd sydd â chwota deddfwriaethol, yr asesir bod gan bob plaid gwota. Mewn gwledydd heb gwotâu deddfwriaethol, dim ond y pleidiau gwleidyddol hynny sydd â'u cwotâu plaid eu hunain sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd â chwotâu. Rydym yn defnyddio cyfres o fodelau dwy ffordd effeithiau sefydlog, sy'n rheoli ar gyfer y sesiwn Senedd Ewrop (lefel amser) a'r gwahaniaethau cenedlaethol (lefel gwlad).

Mewn geiriau eraill, mae'r meintiau effaith canlynol yn dangos gwahaniaethau yn lefelau'r menywod sy'n bresennol (ar lefel genedlaethol neu lefel plaid), yn dilyn rhoi gwahanol fathau o gwotâu ar waith. Mae pob un o'r amcangyfrifon canlynol eisoes wedi ystyried effaith gyffredinol gwahaniaethau cenedlaethol ac amser eraill (h.y. ein defnydd o fodelau effeithiau sefydlog dwy ffordd), felly mae'r effeithiau'n cynrychioli swm penodol y gwahaniaeth y gellir ei briodoli i bob opsiwn cwota. Mae allbwn llawn ein modelau atchweliad ar gael ar gais. O ganlyniad i'r modelau a ddefnyddir, rydym yn deillio ffiniau rhagfynegol, yr ydym yn eu rhannu yma.

### *Trothwy cwota*

Ar lefel gwlad, rydym yn y lle cyntaf yn archwilio effaith trothwyon cwota ar y newid canrannol o ASEau benywaidd. Rydym yn archwilio gwahanol drothwyon posibl ar gyfer cwotâu ac yn eu defnyddio i ddod i gasgliad o ran sut mae presenoldeb menywod yn newid ar lefel gwlad, ar wahanol lefelau o gryfder cwota.



|                  |             |
|------------------|-------------|
| <b>Dim cwota</b> | <b>0.00</b> |
| <b>10%</b>       | 1.67        |
| <b>20%</b>       | 3.35        |
| <b>30%</b>       | 5.03        |
| <b>40%</b>       | 6.71        |
| <b>50%</b>       | 8.39        |

Mae'r tabl uchod yn dangos y newid a ragwelir ym mhresenoldeb menywod ar y lefel ddirprwyo genedlaethol (h.y. pob ASE a etholir o wlad benodol), pan fo cwota yn bresennol ar y trothwy o 10%, 20%, ac ati. Â chymryd bod popeth arall yn gyfartal – sy'n golygu bod gwahaniaethau sy'n ymwneud â gwledydd eraill ac amser-benodol yn cael eu rheoli ar eu cyfer, ar wahân i'r effeithiau hyn – rydym yn gweld rhwng 1.67 ac 8.39% yn fwy o fenywod mewn dirprwyaethau cenedlaethol, wrth i gwotâu gryfhau. *Mae hyn yn awgrymu bod trothwyon cryfach yn cynhyrchu dirprwyaethau cenedlaethol gyda mwy o fenywod yn bresennol ynddynt, ar draws pob plaid o fewn y gwledydd hynny.*

|                  |             |
|------------------|-------------|
| <b>Dim cwota</b> | <b>0.00</b> |
| <b>10%</b>       | 2.00        |
| <b>20%</b>       | 4.01        |
| <b>30%</b>       | 6.01        |
| <b>40%</b>       | 8.01        |
| <b>50%</b>       | 10.01       |

Mae'r ail dabl yn deillio o fodel sy'n ystyried effaith cwotâu ar y gyfran o fenywod ar lefel plaid wleidyddol, yn hytrach nag ar lefel gyffredinol y wlad. Yma, rydym yn gweld mwy o effaith. Mewn geiriau eraill, pan fydd cwota o 50% ar waith o fewn plaid benodol, mae plaid wleidyddol yn debygol o weld mwy na 10% yn fwy o fenywod yn cael eu hethol i'r blaid honno – o gymharu â phan nad oedd ganddi gwota – unwaith bod gwahaniaethau cenedlaethol, a gwahaniaethau o ran amser, wedi'u dwyn i ystyriaeth. *Mae'r ffaith bod maint yr effaith yn fwy ar gyfer cwotâu lefel plaid yn awgrymu bod presenoldeb menywod yn cael ei effeithio'n gryfach ar lefel plaid nag ar lefel genedlaethol.* Mae hwn yn ganfyddiad cyson a fydd yn destun arsylwi mewn dimensiynau pellach.

#### *Amser ers y cwota*

At hynny, gallwn archwilio amseriad effeithiau cwota, o ystyried ei bod yn debygol y bydd angen i bleidiau gwleidyddol a systemau pleidiau cenedlaethol addasu dros amser yn sgil realiti cyfreithiau newydd ynghylch cwotâu. Rydym yn modelu hyn yn gyntaf fel effaith annibynnol pob etholiad Senedd Ewrop dilynol, tra'n cadw gwahaniaethau lefel gwlad yn gyson. Cofiwch fod etholiadau Senedd Ewrop yn cael eu cynnal bob pum mlynedd, felly mae'r ffiniau rhagfynegol isod yn cynrychioli'r newid a ragwelir ar gyfartaledd ym mhresenoldeb menywod o fewn dirprwyaeth genedlaethol, ar draws ei holl bleidiau, o'i gymharu â'r etholiad cyntaf lle mae cwota yn bresennol (t=0).

|            |             |
|------------|-------------|
| <b>t</b>   | <b>0.00</b> |
| <b>t+1</b> | -0.02       |
| <b>t+2</b> | -0.04       |
| <b>t+3</b> | -0.06       |
| <b>t+4</b> | -0.08       |
| <b>t+5</b> | -0.11       |

Os unrhyw beth, mae'r modelau'n nodi nad yw effeithiau cwota yn newid llawer ar ôl yr etholiad cyntaf, o leiaf pan ystyrir presenoldeb menywod ar y lefel genedlaethol. Ar ôl pum cylch etholiadol, mae gwledydd sydd â chwotâu deddfwriaethol yn profi gostyngiad bach iawn o tua 0.11% ym mhresenoldeb menywod. *Mewn geiriau eraill, mae effaith gadarnhaol cwotâu a drafodwyd yn yr adran flaenorol yn cael eu 'cloi i mewn' ar gyfer dirprwyaethau cenedlaethol yn gymharol gyflym ac nid yw'n newid llawer wedi hynny.*

|            |             |
|------------|-------------|
| <b>t</b>   | <b>0.00</b> |
| <b>t+1</b> | 0.64        |
| <b>t+2</b> | 1.28        |
| <b>t+3</b> | 1.92        |
| <b>t+4</b> | 2.56        |
| <b>t+5</b> | 3.20        |

Pan fyddwn yn modelu hyn ar lefel plaid, rydym yn dod o hyd i batrwm ychydig yn wahanol. Yma, pan fydd pleidiau gwleidyddol yn profi cwota (boed ar lefel ddeddfwriaethol neu bleidiol), dim ond parhau i dyfu mae effaith y cwota ar bresenoldeb menywod ym mhob plaid wleidyddol. Mewn geiriau eraill, pe baem yn gweld maint effaith o tua 10% ar gyfer pleidiau â chwotâu o 50% yn yr adran ddiwethaf, mae'r canlyniad uchod yn dangos y gellid disgwyl 3.2% ychwanegol yn y dyfodol. A siarad yn sylweddol, mae cwotâu yn cloi eu heffaith ar lefel genedlaethol, ond maent yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gynrychiolaeth menywod ar lefel plaid. *Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau eraill o'n data, sy'n dangos bod pleidiau sydd arnynt angen y cynnydd mwyaf i gyrraedd cydraddoldeb rhywedd ymhlith eu cynrychiolwyr, hefyd yn profi'r effeithiau mwyaf o gwotâu. Yn eu tro, mae'r effeithiau hyn yn parhau i chwyddo dros amser.*

### *Gorfodi cwotâu*

At hynny, gallwn archwilio effaith gorfodi cwotâu ar bresenoldeb etholedig menywod. Rydym yn defnyddio data o gronfa ddata QAROT (Hughes et al. 2017) i wahaniaethu rhwng systemau â darpariaeth orfodi gref a systemau â darpariaethau gorfodi gwan, neu ddim darpariaethau gorfodi o gwbl. Yn unol â'r drafodaeth uchod, daw gorfodi cryf gan lywodraethau sydd â'r pŵer i wrthod neu ddiwygio rhestrau plaid nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau cwota, tra bod gorfodi gwan yn cynnwys pethau fel dirwyon neu sancsiynau untro eraill.

Ar lefel genedlaethol, rydym yn gweld ffin ragfynegol o 2.11% ar gyfer presenoldeb menywod ymhlith y ddirprwyaeth genedlaethol. *Mewn geiriau eraill, mae gan wledydd sydd â systemau gorfodi cryf fwy o ASEau benywaidd na'r rheini sydd â systemau gorfodi*

*gwan, neu ddim gorfodi o gwbl.* Ar lefel plaid, mae'r effaith hyd yn oed yn gryfach, gyda gwledydd sydd â systemau gorfodi cryf â 9.94% yn fwy o fenywod ymhlith deddfwyr etholedig eu plaid. Yn y naill achos a'r llall, mae'r ffiniau hyn yn deillio wrth reoli ar gyfer gwahaniaethau o ran amser a gwlad. Mae'n werth nodi bod meintiau'r effeithiau hyn yn llai na'r effeithiau gorfodi a welir yn y llenyddiaeth ar gyfer gwledydd mewn rhanbarthau daearyddol eraill. Fel yn achos Cymru, mae ein data ond yn cynnwys democratiaethau cyfunol sydd â hanes hir o barchu rheolaeth y gyfraith, a strwythurau llywodraethiant da. *Gallm gasglu felly, er bod systemau gorfodi yn 'ffon' ddefnyddiol i gymell pleidiau i ddilyn deddfwriaeth cwota, mae pleidiau mewn systemau democrataidd eisoes yn fwy tebygol o gadw at ddeddfwriaeth y llywodraeth nag mewn cyd-destunau eraill, mwy datblygol neu drosiannol.*

Yn olaf, gallwn fodelu effeithiolrwydd gwahanol fathau o system etholiadol ar gynrychiolaeth menywod. Pan fydd cwotâu yn cael eu defnyddio, gwelwn fod gan ddirprwyaethau gwlad sy'n defnyddio rhestrau agored neu led-agored – sy'n caniatáu i ddewisiadau pleidleiswyr gael eu mynegi – tua 8.29% yn fwy o fenywod yn eu dirprwyaethau cenedlaethol. Ar lefel plaid, mae'r effaith hon yn cael ei gwanhau i 4.55%. Mae'r canfyddiadau hyn yn groes i'r llenyddiaeth gyffredinol, sy'n disgwyl i bleidleisiau rhestr gaeedig fod yn fwy ffafriol i etholiad menywod na phleidleisiau agored/lled-agored sy'n caniatáu ar gyfer dewisiadau pleidleiswyr. *Mae hyn yn debygol oherwydd y nifer gymharol fach o wledydd sy'n defnyddio rhestrau agored neu led-agored mewn etholiadau Ewropeaidd, ac felly pwyll piau hi.* Mewn geiriau eraill, byddem yn amharod i ddyfarnu ar systemau etholiadol rhestr gaeedig fel rhai sy'n niweidiol i etholiad menywod, ar sail ein sampl gyfyngedig.

### *Crynodeb o fodelu*

I grynhoi, gan ddefnyddio data gwirioneddol ar bresenoldeb amrywiol cwotâu yn Senedd Ewrop, gallwn gynhyrchu set o ffiniau rhagfynegol sy'n amlygu nodweddion cwotâu sy'n tueddu i fod y pwysicaf ar gyfer gwella presenoldeb menywod ymhlith democratiaethau Ewropeaidd a phleidiau gwleidyddol. *Gwelwn fod trothwyon uwch yn arwain at ethol mwy o fenywod. Ar lefel pleidiau gwleidyddol, mae'r effeithiau hyn yn parhau i dyfu dros amser, wrth i bleidiau addasu i reolau cwota mewn etholiadau dilynol, ac wrth i fwy o fenywod gyrraedd statws deiliad.*

I'r gwrthwyneb, rydym yn dangos llai o effaith ar gyfer gorfodi, hyd yn oed pan fydd ar ei gryfaf. Nid yw'r math o bleidlais yn cael effaith gref iawn, chwaith. Ar gyfer y naill newidyn a'r llall, rydym yn dychmygu bod hyn yn fwy o gynnyrch y gwledydd yr ydym yn eu hystyried. Defnyddir cwotâu mewn ystod eang o wledydd – llawer ohonynt mewn economïau nad ydynt yn rhai gorllewinol, nac ychwaith yn ddemocrataidd, a/neu'n llai datblygedig. I Gymru, y pwynt cymharu mwyaf addas yw ei chymdogion cyfunol, democrataidd. *O ystyried bod ein data'n canolbwyntio ar yr union wledydd hynny, mae'n werth damcaniaethu bod pethau fel systemau gorfodi a mathau o bleidleisiau yn llawer llai pwysig yma, nag y gallent fod mewn cyd-destunau mwy amrywiol.*

Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw bod cwotâu yn cael effaith o bwys, a hynny ar unwaith. Fodd bynnag, pa mor fawr y gallai'r effaith honno fod yng Nghymru? Dyma fynd ati i archwilio hynny'n awr.

## Effeithiau a ragwelir i Gymru

Gan ddefnyddio'r ffiniau rhagfynegol o'r adran flaenorol, mae'n bosibl rhagweld effaith debygol y cwota rhywedd arfaethedig ar gynrychiolaeth ddisgrifiadol menywod yn Senedd Cymru. Mae'r effeithiau a ragwelir isod yn deillio o 40 mlynedd o ddata etholiad Senedd Ewrop, a ddefnyddiwyd yn (Aldrich a Daniel 2025), gan dynnu ar wahaniaethau yn systemau etholiadol 28 o wledydd Ewropeaidd, ochr yn ochr â phatrymau etholiadol mwy na 400 o bleidiau gwleidyddol Ewropeaidd, a 4000 o wleidyddion etholedig.

Gan fod y patrymau a archwiliwn yn yr adran flaenorol yn deillio o sampl mor helaeth a chynhwysfawr – a chan fod system Cymru yn cynnwys llawer o debygrwydd strwythurol, diwylliannol a systemig i'r gwledydd yn ein set ddata – mae'n werth ystyried pa mor effeithiol y gallai gwahanol fathau o ffurfiau cwota fod ar gyfer y Senedd. Ar y llaw arall, mae'n werth trin yr effeithiau hyn a ragwelir yn ofalus, gan mai cyfartaleddau ydynt, yn eu hanfod, o gyfuniadau gwahanol. Serch hynny, mae meintiau'r effeithiau oddi uchod yn datgelu gwybodaeth ddiddorol am effaith gymharol gwahanol ddewisiadau sefydliadol.

Yn dilyn yr etholiad diweddaraf yn 2021, roedd 43% o'r Aelodau yn fenywod. Roedd presenoldeb cymharol merched ymhlith dirprwyaethau'r pleidiau yn amrywio o 57% i aelodau Llafur i 38% i Blaid Cymru, ac 19% i'r Ceidwadwyr. Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol un sedd, a ddaliwyd gan fenyw (Davies et al. 2021). O ystyried y rhagfynegiadau uchod, gallem yn rhesymol ddisgwyl i gwotâu ychwanegol ar y trothwy penodedig o 50% o ymgeiswyr benywaidd ildio rhwng 8 a 10% o gynnydd ym mhresenoldeb menywod yn y Senedd, yn dilyn yr etholiad nesaf. Mewn geiriau eraill, byddai hyn yn dwyn cyfansoddiad cyffredinol y Senedd i tua 50% o fenywod yn gyffredinol.

Fe sylwch, yn sgil y ffiniau rhagfynegol uchod, ein bod yn disgwyl effeithiau cryfach ar lefel plaid nag ar lefel sefydliadol gyffredinol. Yn yr un modd â Chymru, mae gan y rhan fwyaf o'r dirprwyaethau cenedlaethol yn ein set ddata gymysgedd o bleidiau – pob un â lefelau gwahanol o gynrychiolaeth menywod. Yr hyn sydd, fodd bynnag, yn gyffredin i ganfyddiadau ein hymchwil, yw bod menywod yn dueddol o fod yn fwyaf presennol ymhlith pleidiau'r chwith, a'r chwith canol. Ar sail canlyniadau Cymru yn 2021, mae'n ymddangos bod hyn yn cyd-fynd â thueddiadau mwy eang.

Fodd bynnag, canlyniad y lefelau cynrychiolaeth plaid-wahaniaethol hyn yw bod cwotâu yn tueddu i gael yr effaith fwyaf ar gynrychiolaeth menywod, pan gânt eu mabwysiadu gan bleidiau a oedd â lefelau is o gynrychiolaeth menywod yn flaenorol. Mewn geiriau eraill, gellir ystyried maint yr effaith o 8-10% fel cyfartaledd ar draws pob plaid, a disgwylir mwy o effaith ar gyfer y pleidiau hynny ar fan cychwyn is. Fel y dangoswyd yn y modelu dros amser o'r adran flaenorol, byddai rhywun yn disgwyl i effeithiau o fewn y pleidiau dyfu dros amser, o gymharu â'r ddeddfwrfa gyffredinol (yr ydym yn ei modelu uchod fel y dirprwyaethau cenedlaethol sy'n bresennol yn Senedd Ewrop).

*I grynhoi'r pwyntiau hyn, byddwn yn disgwyl am effaith gyffredinol o gynnydd o 8-10% yng nghynrychiolaeth menywod ar draws Senedd Cymru ar ôl gweithredu cwotâu, gydag enillion mwy ymhlith y pleidiau hynny sy'n profi lefelau is o gynrychiolaeth menywod ar hyn o bryd. Ar lefel plaid, y disgwyl fyddai cael y cynnydd mwyaf yn yr etholiad cyntaf yn*

*dilyn y cwota, gydag effaith gynyddol ychwanegol dros amser, wedi hynny.*

Mae'r systemau gorfodi a'r strwythur pleidleisio ymhlith ffactorau eraill sy'n berthnasol o'r cwota arfaethedig ar gyfer Cymru. Fel y trafodaf yn yr adrannau blaenorol, mae'r system gorfodi arfaethedig yn eithaf cryf, o gymharu â gwledydd eraill. Bydd hyn er budd y cwota, pe bai'n dod yn gyfraith. *Yr hyn sy'n allweddol yma yw bod yr awdurdod etholiadol yn cadw'r hawl i wrthod neu ddiwygio cofrestriadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r rheoliad cwota.* Fodd bynnag, ar sail ein data sylweddol o bob rhan o Ewrop, nid yw presenoldeb neu absenoldeb cyfreithiau gorfodi cryf yn cael effaith rhy sylweddol ar ethol menywod – o safbwynt gwirioneddol. Y rheswm tebygol am hyn yw oherwydd lefelau presennol democratiaeth ein hachosion fesul gwlad, ac felly parodrwydd i gydymffurfio â rheolaeth y gyfraith – yn hytrach na chynnal etholiadau ar sail y bygythiad canfyddedig o sancsiynau'r llywodraeth.

Yn yr un modd, byddai'n rhesymol disgwyl bod dyluniad y rhestr gaeedig arfaethedig gyda phleidiau gwleidyddol braint, yn gosod menywod mewn safleoedd etholedig na ellir eu diwygio gan bleidleiswyr er anfantais iddynt. *Er nad ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth bod rhestrau agored yn anfanteisiol i etholiad menywod ar draws ein data Ewropeaidd, ni fyddem yn disgwyl i'r trefniant rhestr gaeedig arfaethedig roi menywod o dan anfantais ychwaith – yn enwedig o ystyried y mandad gosodiad cryf.*

## Casgliadau

Dangoswyd yn gyson bod defnyddio cwota ledled y byd yn effeithiol o ran cynyddu cynrychiolaeth menywod. Mae'r cwota rhywedd arfaethedig ar gyfer Senedd Cymru yn cynrychioli cwota cryf sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar enwebu ac ethol deddfwyr benywaidd. Y rhesymau penodol am hyn yw ei drothwy uchel (o leiaf 50% o enwebiadau menywod), ei fandadau gosodiad (y meini prawf fertigol a llorweddol) a'i fecanweithiau gorfodi (gallu'r awdurdod etholiadol i wrthod neu ddiwygio cofrestriadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r cwota).

Gan dynnu ar batrymau a welwyd fel rhan o waith ymchwil helaeth ar 28 o wledydd Ewropeaidd a 400 o bleidiau gwleidyddol, ar draws mwy na 40 mlynedd o weithredu cwota, rwyf o'r farn bod y cwota Cymreig arfaethedig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb menywod yn y Senedd, ac y bydd yr effaith hon nid yn unig ar ei chryfaf mewn pleidiau lle mae presenoldeb menywod ar ei isaf ar hyn o bryd ond y bydd, hefyd, yn tyfu dros amser.

Wrth i'r Senedd ystyried ei diwygiadau ehangach – gan gynnwys ei hehangu – mae'r llenyddiaeth academiaidd yn glir y gall cwota effeithiol gynhyrchu canlyniad sy'n fwy disgrifiadol o gynrychioli poblogaeth Cymru nag a fyddai'n wir pe bai pleidiau unigol yn unig yn ymrwymo i arferion tebyg.

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i Dr Andrea Aldrich o Brifysgol Iâl [REDACTED] am ei chymorth i fodelu'r ffiniau rhagfynegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

## Gwaith a Ddyfynnwyd

- Aldrich, Andrea S., a William T. Daniel. 2020. 'The Consequences of Quotas: Assessing the Effect of Varied Gender Quotas on Legislator Experience in the European Parliament'. *Politics & Gender Medi*: 738–67. doi:10.1017/S1743923X19000291.
- Aldrich, Andrea S., a William T. Daniel. 2024. 'Gender Quota Adoption and the Qualifications of Parliamentarians'. *The Journal of Politics*:000–000. doi:10.1086/727603.
- Aldrich, Andrea S., a William T Daniel. 2025. *Quotas as Game Changers for the Recruitment, Selection, and Performance of Elected Politicians*. (Yn y wasg.). Rhydychen, Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Allik, Mirjam. 2015. 'Who Stands in the Way of Women? Open vs. Closed Lists and Candidate Gender in Estonia'. *East European Politics* 31(4): 429–51. doi:10.1080/21599165.2015.1084924.
- Corrêa, Diego Sanches, a Vanilda Souza Chaves. 2020. 'Gender Quotas and Placement Mandates in Open and Closed Lists: Similar Effects, Different Mechanisms'. *Electoral studies* 66: 102157. doi:10.1016/j.electstud.2020.102157.
- Dahlerup, Drude. 2006. *Women, Quotas and Politics*. Taylor & Francis.
- Daniel, William T. 2015. *Career Behaviour and the European Parliament: All Roads Lead Through Brussels?* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Davies, Owain, Owen Holzinger, Joanne McCarthy, a Helen Jones. 2021. *Etholiad y Senedd yn 2021: Papur briffio* Caerdydd: Senedd Cymru: Ymchwil y Senedd <https://ymchwil.senedd.cymru/media/bi2hqtttd/21-008-etholiad-senedd-2021-web.pdf> (Mawrth 28, 2024).
- Fortin-Rittberger, Jessica, a Berthold Rittberger. 2014. 'Do Electoral Rules Matter? Explaining National Differences in Women's Representation in the European Parliament'. *European Union Politics* 15(4): 496–520. doi:10.1177/1465116514527179.
- Fortin-Rittberger, Jessica, a Berthold Rittberger. 2015. 'Nominating Women for Europe: Exploring the Role of Political Parties' Recruitment Procedures for European Parliament Elections'. *European Journal of Political Research* 54(4): 767–83. doi:10.1111/1475-6765.12101.
- Franceschet, Susan, Mona Lena Krook, a Jennifer M. Piscopo. 2012. *The Impact of Gender Quotas*. Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Gatto, Malu AC, a Kristin N Wylie. 2022. 'Informal Institutions and Gendered Candidate Selection in Brazilian Parties'. *Party Politics* 28(4): 727–38. doi:10.1177/13540688211008842.
- Grey, Sandra. 2006. 'Numbers and Beyond: The Relevance of Critical Mass in Gender

- Research'. *Politics & Gender* 2(4): 492–502. doi:10.1017/S1743923X06221147.
- Hooghe, Marc, Dietlind Stolle, a Patrick Stouthuysen. 2004. 'Head Start in Politics: The Recruitment Function of Youth Organizations of Political Parties in Belgium (Flanders)'. *Party Politics* 10(2): 193–212. doi:10.1177/1354068804040503.
- Krook, Mona Lena. 2010. *Quotas for Women in Politics Gender and Candidate Selection Reform Worldwide*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Kunovich, Sheri. 2012. 'Unexpected Winners: The Significance of an Open-List System on Women's Representation in Poland'. *Politics & Gender* 8(02): 153–77. doi:10.1017/S1743923X12000141.
- Lovenduski, Joni. 2001. 'Women and Politics: Minority Representation or Critical Mass?' *Parliamentary Affairs* 54(4): 743–58. doi:10.1093/parlij/54.4.743.
- Luhiste, Maarja. 2015. 'Party Gatekeepers' Support for Viable Female Candidacy in PR-List Systems'. *Politics & Gender* 11(1): 89–116. doi:10.1017/S1743923X14000580.
- Marcinkiewicz, Kamil. 2014. 'Electoral Contexts That Assist Voter Coordination: Ballot Position Effects in Poland'. *Electoral Studies* 33: 322–34. doi:10.1016/j.electstud.2013.07.018.
- Melanie M Hughes, Pamela Paxton, Amanda Clayton, a Par Zetterberg. 2017. 'Quota Adoption and Reform over Time (QAROT), 1947-2015'. <http://www.pitt.edu/~hughesm/data.html>.
- Millard, Frances. 2014. 'Not Much Happened: The Impact of Gender Quotas in Poland'. *Communist and Post-Communist Studies* 47(1): 1–11. doi:10.1016/j.postcomstud.2014.01.004.
- Paxton, Pamela, and Melanie M. Hughes. 2015. 'The Increasing Effectiveness of National Gender Quotas, 1990–2010'. *Legislative Studies Quarterly* 40(3): 331–62. doi:10.1111/lsq.12079.
- Rahat, Gideon, and Reuven Y. Hazan. 2001. 'Candidate Selection Methods: An Analytical Framework'. *Party Politics* 7(3): 297–322. doi:10.1177/1354068801007003003.
- Reiser, Marion. 2014. 'The Universe of Group Representation in Germany: Analysing Formal and Informal Party Rules and Quotas in the Process of Candidate Selection'. *International Political Science Review* 35(1): 55–66. doi:10.1177/0192512113507732.
- Schwindt-Bayer, Leslie A. 2009. 'Making Quotas Work: The Effect of Gender Quota Laws On the Election of Women'. *Legislative Studies Quarterly* 34(1): 5–28. doi:10.3162/036298009787500330.
- Tan, Netina. 2015. 'Introduction: Quotas and Non-Quota Strategies in East Asia'. *Politics & Gender* 11(1): 171–75. doi:10.1017/S1743923X14000622.



Jane Hutt AS/MS  
Y Trefnydd a'r Prif Chwip  
Trefnydd and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

David Rees AS/MS  
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

10 Mai 2024

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai 2024 ynglŷn â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) a'r ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Yn ystod sesiwn graffu'r pwyllgor ar 1 Mai fe wnes i gadarnhau fod gohebiaeth wedi bod rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weinidog Cymru. Er gwybodaeth i'r pwyllgor, rwy'n amgáu copi o'r llythyr a ddaeth i law gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r ateb gan Brif Weinidog Cymru. Rhannwyd copïau o'r llythyrau hyn gyda chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ogystal.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ni fu unrhyw ymgysylltiad penodol â Swyddfa Cymru wrth ddatblygu'r deddfwriaeth. O ystyried fy marn i fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel y mae'n ymwneud â'r Senedd ac etholiadau'r Senedd, a chan nad yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen am unrhyw gydsyniad Gweinidog y Goron mewn perthynas ag ef, ni ystyriwyd bod angen ymgysylltu â Swyddfa Cymru yn ystod datblygiad y Bil. Mae hyn yn unol â'r ymarfer arferol ar gyfer Biliau'r Llywodraeth.

Sylwch fod y Prif Weinidog, yn ei ymateb i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn agored i gynnal cyfarfod rhwng swyddogion ar ôl i bwyllgorau'r Senedd gwblhau eu gwaith craffu cyfnod 1. Rydym yn credu mai dyma'r amser mwyaf priodol i gynnal unrhyw drafodaethau.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS  
Y Trefnydd a'r Prif Chwip  
Trefnydd and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





**Rt Hon David TC Davies MP**  
Secretary of State for Wales  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ref: 033MISC24

T: 0292 092 4216  
E: [Correspondence@ukgovwales.gov.uk](mailto:Correspondence@ukgovwales.gov.uk)

**Vaughan Gething MS**

First Minister of Wales  
Welsh Government  
5th Floor  
Tŷ Hywel  
Cardiff Bay  
CF99 1NA  
Email: [correspondence.fm@gov.wales](mailto:correspondence.fm@gov.wales)

21<sup>st</sup> March 2024

Dear Vaughan,

I would like to reiterate my congratulations to you on becoming the First Minister of Wales. I look forward to working together to deliver for people across Wales.

Unfortunately, I am writing so soon as I have serious concerns with the Welsh Government's decision to introduce the Senedd Cymru (Electoral Candidate Lists) Bill, despite the Llywydd concluding, on the basis of legal advice, that it does not fall within the Senedd's legislative competence.

The Llywydd has set out detailed concerns that, in her view, the Bill relates to the reserved matter of equal opportunities (a reserved matter in Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006) and modifies the law on reserved matters (in this case, section 104 of the Equality Act 2010), indicating that the proposals would not be within the legislative competence of the Senedd. I note that notwithstanding this, the Welsh Government maintains that the Bill's provisions are within the Senedd's competence. I have not seen any analysis from the Welsh Government explaining its position.

I understand you have decided to proceed to introduce the Bill despite the Llywydd's assessment of competence. The Senedd Reform Committee has now said it will consider the question of competence as part of its scrutiny of the Bill.

Given that a key aspect of the role of Secretary of State for Wales is ensuring that legislation in both the UK Parliament and Senedd reflects the devolution boundary, I am therefore duty bound to express my grave concern that the Llywydd and the Welsh Government are not in agreement on this Bill.



**Rt Hon David TC Davies MP**  
Secretary of State for Wales  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ref: 033MISC24

T: 0292 092 4216

E: [Correspondence@ukgovwales.gov.uk](mailto:Correspondence@ukgovwales.gov.uk)

While improving the gender diversity of parliaments across the UK is an ambition we share, I am concerned that Welsh Ministers are yet to make clear how relevant UK legislation, including the Equalities Act 2010 and the Gender Recognition Act 2004, relates to the provisions in the Bill, particularly in regard to the definition of a 'woman'.

I would like our officials to meet to discuss and better understand the Welsh Government's position on the Senedd's legislative competence in relation to this Bill at the earliest opportunity.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink that reads 'David T.C. Davies'.

**Rt Hon David TC Davies MP**  
Secretary of State for Wales  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Vaughan Gething AS/MS**  
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:IM/FM -/05011/24

David T C Davies MP  
Gwydyr House  
London  
SW1A 2NP  
Correspondence@ukgovwales.gov.uk

22 April 2024

Dear David,

I am writing in response to your letter dated 21 March regarding the introduction of the *Senedd Cymru (Electoral Candidate Lists) Bill* (the Bill).

The Bill delivers on the recommendation of the Special Purpose Committee (SPC) on Senedd Reform that the Senedd should be elected with integrated statutory gender quotas. The SPC's recommendations were endorsed by the Senedd, and the Welsh Government committed to bringing forward legislation to deliver on those recommendations.

The Welsh Government's position on the Bill has been set out in the [Explanatory Memorandum](#), and in the [Oral](#) and [Written Statements](#) made by the Member in Charge, Jane Hutt MS (Bill webpage: [Senedd Cymru \(Electoral Candidate Lists\) Bill](#)).

The Reform Bill Committee launched its Stage 1 scrutiny of the general principles of the Bill on 13 March, including holding its first scrutiny session with the Member in Charge. The Committee will continue to gather evidence over the coming weeks and the Bill will also be considered by both the Legislation, Justice and Constitution Committee and the Finance Committee later this month. All relevant transcripts and recordings can be accessed from the Reform Bill Committee webpage or from the web pages of the relevant committees. All three committees are due to report on the general principles of the Bill in June.

I would be happy for our officials to meet to discuss the Bill at an appropriate time in the future, shortly after the Committees have completed their Stage 1 scrutiny of the Bill.

Yours sincerely,

**VAUGHAN GETHING**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswilt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jane Hutt AS  
Trefnydd a'r Prif Chwip

16 Mai 2024

Annwyl Jane

### Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Diolch am ddod i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ar 24 Ebrill, i drafod goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (y Bil).

Yn amodol ar y safbwyntiau a nodir isod, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### Rhaglen Diwygio'r Senedd

Mae Rhaglen Diwygio'r Senedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Bil a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y mae'r Pwyllgor eisoes wedi adrodd arno. Rydym yn nodi eich barn fod angen edrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y Bil hwn yng nghyd-destun y Bil Aelodau ac Etholiadau, oherwydd mae'n cael ei weld fel rhaglen ddiwygio'r Senedd yn ei chyfanrwydd. Rydym yn cydnabod y rhyngberthynas rhwng y darnau hyn o ddeddfwriaeth, a bod y costau sy'n deillio ohonynt yn gysylltiedig, os caiff y ddwy ohonynt eu pasio gan y Senedd.

At hynny, byddem yn croesawu cadarnhad y bydd unrhyw gostau a ysgwyddir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â diweddariadau i'r System Rheoli Etholiadol sy'n deillio o'r ddau Fil, yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru.

## Cyfanswm costau'r Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai cyfanswm y gost o roi'r deddfwriaeth ar waith fydd £21,000, dros y cyfnod arfarnu wyth mlynedd. Yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ar 1 Mai, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn Etholiadol, ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, wedi nodi cost o tua £6,000 ar gyfer gwaith a wneir gan ei dîm deddfwriaeth newydd i baratoi ar gyfer gweithredu'r Bil sy'n cynnwys costau staff a chostau ar gyfer paratoi canllawiau. Rydym yn nodi bod y cynnydd yn gyfran sylweddol o gost derfynol y Bil. Rydym yn siomedig na wnaethoch hysbysu'r Pwyllgor hwn am y cynnydd yn yr amcangyfrif ac rydym yn disgwyl gweld manylion llawn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, os yw'r Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i Gyfnod 1.

## Heriau cyfreithiol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol

Dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol nodi'r amcangyfrifon gorau o gostau a manteision gweithredu Biliau ac felly nid yw gwybodaeth am gostau sy'n gysylltiedig â heriau cyfreithiol posibl sy'n deillio o Filiau yn cael ei chynnwys fel arfer. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i'r Llywydd gyhoeddi datganiad sy'n nodi, yn ei barn hi, na fyddai'r Bil "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd". O ystyried bod eich barn chi a barn y Llywydd ar gymhwysedd yn wahanol, mae hyn yn ei gwneud yn debygol iawn y bydd her yn cael ei chyflwyno i'r Goruchaf Lys ac felly bydd costau cyfreithiol ychwanegol yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Os bydd hyn yn digwydd, hoffai'r Pwyllgor gael ei hysbysu am y costau cysylltiedig.

## Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu rôl y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol gyda chost gylchol o £1,500 fesul etholiad. Os byddwch yn dod i'r casgliad, yn ogystal, bod angen dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol, rydym yn disgwyl i'r costau hynny gael eu cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, er ein bod yn cydnabod bod costau o'r fath yn debygol o fod yn fach iawn.

## Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol

Rydym yn siomedig na fu unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol ynghylch costau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Er y byddai costau ac arbedion posibl cyflwyno cwotâu yn amrywio rhwng pleidiau gwleidyddol, rydym yn credu y dylid gwneud rhagor o waith i asesu'r costau. Gellid cyflawni hyn drwy ymgynghori â Phanel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd a hefyd drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn y Senedd ar hyn o bryd.



## Is-ddeddfwriaeth

Yn olaf, rydym yn disgwyl ichi ymrwymo i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â chostau'r Bil drwy gyhoeddi Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn. Mae hwn yn argymhelliad yr ydym wedi'i wneud yn flaenrol mewn perthynas â nifer o Filiau yn ystod y Senedd, wrth inni geisio cael darlun llawn o'r costau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth sydd ger ein bron.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 11 Mehefin, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried eich ymateb cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a drefnwyd ar gyfer 18 Mehefin 2024.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd

Copiau at: Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

# Y Pwyllgor Deisebau

## Item 1.4

### Petitions Committee

David Rees AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Biliau Diwygio  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

16 Mai 2024

Annwyl David

### Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 11 Medi, ynghyd â gohebiaeth gan Y Prif Weinidog a'r Deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn tynnu sylw at y ddeiseb nes y cyflwynir Bil Diwygio'r Senedd. Rwy'n ysgrifennu eto, gan y gallai'r ddeiseb fod yn fwy perthnasol i ystyriaeth y pwyllgor o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: <https://busnes.senedd.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=41308&Opt=3>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â tîm clericio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clericio: [deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru).

Yn gywir

*JACK SARGEANT*

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Deisebau@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDeisebau  
0300 200 6565

### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Petitions@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPetitions  
0300 200 6565



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon